

St. Kentigern

Caffi Cariad



2023/2024

# Adolygiad Blynyddol

Yn ein cymuned, o'n cymuned, ar gyfer ein cymuned

Ffordd Uchaf Dinbych, Llanelwy, LL17 0RS

01745 585221

[www.stkentigernhospice.org.uk](http://www.stkentigernhospice.org.uk)

Rhif Elusen Gofrestredig: 519931



**St. Kentigern**

HOSPICE & PALLIATIVE CARE CENTRE  
HOSBIS A CHANOLFAN GOFAL

# Croeso gan ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr



*Jane McGrath*

Prif Weithredwr,  
Hosbis Sant Cyndeyrn



*Steve Thomas*

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr,  
Hosbis Sant Cyndeyrn

## Adroddiad y Cadeirydd

Croeso i adroddiad blynyddol 2023/24 ar gyfer Hosbis Sant Cyndeyrn, sy'n adlewyrchu ar flwyddyn o gefnogaeth barhaus i'r rhai y mae eu bywydau yn cael eu heffeithio gan salwch sy'n cyfyngu ar fywyd yn Sir Ddinbych, Dwyrain Conwy, Gorrlewin Sir y Fflint a phan fo angen ardaloedd y tu allan i'n dalgylch.

Cefais fy mhenodi'n Gadeirydd y Bwrdd ym mis Mawrth 2023, ar ôl bod yn ymddiriedolwr o 2021. Fel sefydliad rydym yn cydnabod bod angen i ni werthfawrogi ein staff, gwirfoddolwyr a chefnogwyr er mwyn cyflawni ein nodau strategol. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Jane McGrath, ein Prif Swyddog Gweithredol a'r Tîm Rheoli Gweithredol am eu hymroddiad, eu hymrwymiad a'u hangerdd i arwain gwasanaethau yn Hosbis Sant Cyndeyrn.

Mae hosbisau yn genedlaethol yn profi effaith ar incwm a'u sylfaen costau. Yn ystod 2023/2024 roeddem wedi derbyn 20% o'n costau gan gyllid statudol sydd wedi codi i ragolygon y flwyddyn gyfredol o 24%; rhaid cyflawni'r gweddill trwy godi arian. Rydym yn hynod ddiolchgar am gefnogaeth barhaus a gwerthfawr y rhai sy'n cymryd rhan yn ein loteri, yn prynu tocynnau raffl, yn defnyddio ein siopau manwerthu, yn rhoi rhoddion, yn ymweld â'n Caffi Cariad ac yn cofio amdanom mewn cymynroddion. Heb y cymorth cymunedol hwn ni allem gynnig y gwasanaethau arbenigol parhaus rydym yn eu darparu i'n cleifion a'u teuluoedd. Diolch i bawb sydd wedi ymrwymo i gefnogi'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r bobl hynny yn ein cymuned.

# Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

Braint oedd cael fy mhenodi'n Brif Swyddog Gweithredol Hosbis Sant Cyndeyrn ym mis Rhagfyr 2023 ar ôl bod yn Fetron ac yn aelod o'r Tîm Gweithredol ers mis Hydref 2019, gan gyfrannu at ddatblygu ein strategaeth bum mlynedd 2023-2028. Ein nod cyffredinol yw ein bod yn rhoi cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr wrth galon popeth a wnawn.

Yr ymrwymiad angerddol i wneud gwahaniaeth, darparu gofal rhagorol a gwaith tîm yw'r hyn sy'n uno pawb yn Hosbis Sant Cyndeyrn.

Fel Hosbis mae gennym amcan ar y cyd o weithio fel "un tîm" i gefnogi ein cyfeiriad strategol. Mae ein nodau a'n hamcanion strategol wedi'u pennu ac rydym yn mesur ein perfformiad yn eu herbyn. Rydym yn uchelgeisiol i barhau i fod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer darparu gofal lliniarol arbenigol, drwy ein hymrwymiad i barhau i wella ym mhopeth rydym yn ei wneud.

Mae sut rydym yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru i ddangos pwysigrwydd y gwasanaethau rydym yn eu darparu'n hanfodol os ydym am wneud y gorau o'r incwm statudol rydym yn ei dderbyn.

Mae ein hadroddiad blynyddol yn rhoi'r cyfle i ni fyfyrion ar flwyddyn gyda heriau, ond gyda llwyddiannau sylweddol o ran darparu ein gofal i gefnogi "yr hyn sy'n bwysig" i bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r Cadeirydd ac i'n Bwrdd Ymddiriedolwyr, ein Gwirfoddolwyr a'r Uwch Dîm Rheoli a'u timau gwych am eu hymroddiad rhagorol, eu gwydnwch a'u harbenigedd, gan sicrhau bod gofal o'r ansawdd uchaf yn cael ei ddarparu a'i gynnal ar gyfer cleifion sy'n byw gyda salwch sy'n cyfyngu ar fywyd, hyd at ddiwedd eu hoes a chymorth profedigaeth i'w teuluoedd. Diolch i chi, ein cymuned am eich cefnogaeth barhaus.

## Cynnwys

<b>Croeso gan ein Cadeirydd a'n Prif Swyddog Gweithredol</b>	<b>1-2</b>	<b>Loteri</b>	<b>7</b>
<b>Uned Cleifion Mewnol</b>	<b>3</b>	<b>Manwerthu</b>	<b>8</b>
<b>Cymorth i Deuluoedd/Hwb Lles/Gofal Ysbrydol/ Caplaniaeth</b>	<b>4</b>	<b>Gwirfoddoli</b>	<b>9</b>
<b>Codi arian</b>	<b>5-6</b>	<b>Caffi Cariad</b>	<b>10</b>
		<b>Adroddiad Ariannol</b>	<b>11-12</b>

# Uned Cleifion Mewnol

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi derbyn dros 180 o gleifion i'r uned cleifion mewnol ac wedi cefnogi eu teuluoedd, gan gynnwys cynnig derbyniadau ar gyfer gofal seibiant i gefnogi gwydnwch a lles gofalwyr.**

Mae ein staff yn parhau i ddarparu gofal lliniarol arbenigol rhagorol a adlewyrchir yn adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar gyfer yr hosbis yn dilyn arolygiad ym mis Mawrth 2023. Rydym yn ymfalchïo yn y model gofal cymysg a ddarperir gan ein tîm amlddisgyblaethol sy'n cefnogi lles corfforol, emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol cleifion ac yn darparu cefnogaeth i'w teuluoedd.



Fel y nodwyd yn ein strategaeth bum mlynedd (2023-2028), ein hamcan yw bod yn gyflogwr o ddewis. Mae'r broses recriwtio well sydd gennym ar waith wedi arwain at gadw staff medrus a phrofiadol. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cyfleoedd datblygu ar gyfer ein staff a chynllunio ar gyfer olyniaeth, hefyd rydym wedi cysoni ein gwasanaethau clinigol â graddfeydd cyflog y GIG ac mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i weithredu. Rydym wedi cyflwyno rhaglen addysg sy'n cefnogi staff i ddysgu sgiliau newydd, rhannu syniadau a chynyddu gwybodaeth. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu addysg a lleoliadau gofal lliniarol arbenigol i Nyrsys, Meddygon Iau, Parafeddygon, Therapyddion a myfyrwyr fferylliaeth o brifysgolion Bangor a Wrecsam a'r Ysgol Feddygaeth yng Nghaerdydd ac Ysgol Feddygol Gogledd Cymru.

Yr hyn sy'n bwysig i ni yw "yr hyn sy'n bwysig" i'n cleifion, a dyna pam fod gosod nodau claf a theulu wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud. Pan fydd claf neu deulu'n nodi nod, boed yn fawr neu'n fach, mae ein tîm eithriadol yn mynd gam ymhellach i gefnogi cleifion i gyrraedd y nod hwnnw. Mae'r bwrdd iechyd lleol wedi cydnabod ein safonau gofal ac arbenigedd unigol rhagorol ac o ganlyniad gofynnwyd i ni hwyluso llinell gyngor meddygon ymgynghorol Gofal Lliniarol Arbenigol Gofal Iechyd Proffesiynol y tu allan i oriau ar gyfer Gogledd Cymru.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau gyda chleifion, teuluoedd a'n cymuned wych i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion a'r gofal sy'n well ganddynt.

# Tîm Cymorth i Deuluoedd

Mae ein Tîm Cymorth i Deuluoedd yn cynnig cwnsela a chymorth i gleifion a theuluoedd sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn yr Hosbis. Mae ein dull cyfannol o ofalu am ein cleifion a'u hanwyliaid yn cynnwys cynnig lle diogel i unigolion neu deuluoedd fynegi eu hofnau. Gall pobl siarad am brofiadau emosiynol a seicolegol anodd gyda sesiynau cwnsela rheolaidd. Rydym yn darparu cefnogaeth i oedolion a phlant y mae eu hanwyliaid yn derbyn gofal yma.

Mae gennym Weithiwr Cymdeithasol, Cwnselwyr, Tîm o Wirfoddolwyr sy'n Cefnogi Gwranddo ac yn fwyaf diweddar Arweinydd Ysbrydol newydd sy'n gweithio gyda theuluoedd a chleifion, gan ddod o hyd i'r hyn sy'n bwysig iddynt wrth wynebu rhai o'r cyfnodau anoddaf.

## Hwb Lles / Gwasanaethau Cleifion Allanol

Mae tystiolaeth glir, gan ofal sylfaenol ac eilaidd, bod gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol cleifion allanol yn amhrisiadwy ac yn hanfodol i wneud y gorau o gefnogaeth a gofal yn ein cymuned.

Yn 2023/24 rydym wedi darparu therapïau a rhaglenni o fewn ein Hwb Lles. Rydym wedi cyflwyno 6 rhaglen Lles wythnosol, dan arweiniad y therapydd galwedigaethol, asesiadau rheoli blinder a diffyg anadl a rhaglenni dan arweiniad y ffisiotherapydd, therapi cerdd wythnosol, therapïau cyflenwol, a grwpiau crefft therapi celf.

Mae dros 200 o gleifion wedi defnyddio gwasanaethau cleifion allanol yn ystod y flwyddyn. Yn ein strategaeth 2023-2028 ein nod yw datblygu ein model gofal Hosbis, gan gynnwys gwella ein gwasanaethau cleifion allanol drwy'r Hwb Lles. Mae wedi'i flaenoriaethu yn y cynllun cyflawni ar gyfer 2024/25. Mae angen i ni ddatblygu ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion llawer mwy o gleifion a'u teuluoedd, ac rydym yn gwneud ein gorau glas i gyflawni hyn.

## Gofal Ysbrydol/Caplaniaeth

Mae'r gwasanaeth Gofal Ysbrydol/Caplaniaeth yn darparu gofal bugeiliol a chefnogaeth ysbrydol i gleifion, teuluoedd a staff. Rydym yn falch iawn o fod wedi penodi'r Dr. Matthew Thompson fel yr Arweinydd Gofal Ysbrydol/Caplaniaeth newydd. Mae rhaglen newydd o weithgareddau a hyfforddiant yn cael ei datblygu i barhau i gryfhau ein hymagwedd gyfannol o fewn gofal lliniarol.

Rydym yn cydnabod bod deall a darparu ein lles ysbrydol yn allweddol i'n lles corfforol a meddyliol. Mae hefyd yn hanfodol ar gyfer ein meithrin trwy amseroedd anodd.

Mae gennym ddealltwriaeth gynhwysol o ysbrydolrwydd ac anghenion ysbrydol sy'n cwmpasu pob cred a chefnidir, crefyddol ac anghrefyddol.



Cyngerrdd Y Gwanwyn, Eglwys Gadeiriol Llanelwy



Diwrnod Golf Rhuddlan



Aelodau'r Grŵp Cefnogi

Eleni dechreuom ddatblygu ein gardd hosbis newydd sy'n argoeli y bydd yn therapiwtig a hardd. Mae'r ardd newydd wedi'i hariannu'n gyfan gwbl gan ein cymuned hael a gododd dros £40,000 o fewn 2 fis cyntaf yr apêl. Caniataodd hyn i ni ddechrau ar y gwaith sylfaenol gyda llwybrau llydan iawn; rhywbeth roeddem yn teimlo oedd yn hanfodol i'w gael ar gyfer ein cleifion, gan ei gwneud yn bosibl i'r rhai mewn cadeiriau olwyn neu welyau gael mynediad i'r ardd a'i mwynhau.

Bydd y gofod hefyd yn caniatáu i ni gynnal yr ail wasanaeth 'Light up a Life' blynyddol o erddi'r hosbis. Cododd 'Light up a Life' y llynedd dros £18,000 a gyda chymorth Clwb Rotari y Fflint a Threffynnon roeddem yn gallu cynnig gwasanaethau mewn ardaloedd newydd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi croesawu cynnydd mewn cefnogaeth gan fusnesau lleol trwy ein Rhaglen Hyrwyddwyr Busnes, o roddion rheolaidd a nawdd i ddigwyddiadau i werthu llyfrau i abseilio i lawr yr Eglwys Farmor.

Hoffem estyn ein diolch o galon i bawb sydd wedi bod mor garedig â'n cofio yn eu hewyllys. Y llynedd, roedd y cymynroddion hael hyn yn fwy na £600,000, gan gefnogi'n sylweddol y galw cynyddol am ofal.



Jones Brothers, Ruthin

I gael gwybodaeth bellach am sut y gallwch fod yn rhan o'n digwyddiadau a'n gweithgareddau codi arian, ewch i'n gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol neu cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr digidol, *Hospice Happenings*.

# Codi arian 2023/24

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae cefnogaeth ddiwyro ein cymuned wedi bod yn rhyfeddol. Er y rhwystrau, megis y cynnydd mewn costau byw, mae'r gymuned wedi dod o hyd i ffyrdd dyfeisgar o gyfrannu at y gwasanaethau hanfodol a ddarperir gan Hosbis Sant Cyndeyrn.



The Big Dip, Prestatyn



Adrian Lewis, Hyrwyddwyr yr Hosbis

Mae digwyddiadau codi arian yn y gymuned leol megis sioeau ffasiwn, boreau coffi, nosweithiau jazz, nosweithiau rasys twiddle, diwrnodau agored gardd, a nosweithiau cwis wedi codi arian hanfodol gan godi ymwybyddiaeth am y gwaith amhrisiadwy a ddarperir gan yr hosbis. Yn ogystal, mae unigolion ag ysbryd anturus wedi ymgymryd â heriau nodedig, yn lleol ac yn rhyngwladol, gan godi dros £30,000! Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gweld yr Hyrwyddwyr Hosbis hyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd sefyll ar ben adenydd awyren fach, teithiau beic, gwauathonau, marathonau, pobi, nenblymio a hyd yn oed teithiau cerdded wrth wthio peiriannau torri lawnt!

Mae'r tîm codi arian yn falch iawn o groesawu aelodau newydd o'r tîm! Mae'r hwb hwn o angerdd ac ymrwymiad i'n hosbis gymunedol wedi arwain at ddatblygu cysyniadau codi arian ffres ochr yn ochr â rhai traddodiadol, megis ein 'Big Dip' llwyddiannus iawn a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024 ar Draeth Prestatyn.

Cododd Cyngerdd y Gwanwyn, a ddathlodd ddiwylliant Cymru drwy gerddoriaeth, dros £5,000 ar gyfer gofal hosbis. Bu'r digwyddiad hwn yn llwyddiant ysgubol gyda dros 280 o docynnau wedi'u gwerthu i bobl sy'n awyddus i weld côr Trelawnyd, myfyrwyr cerddorol Glan Clwyd, a lywyddwyd yn wych gan John Ieuan Jones yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy.

Mae ymroddiad diflino ein Grwpiau Cefnogi Cymunedol Codi Arian, yn Abergele, Dinbych, a Phrestatyn yn parhau i fod yn ffordd hanfodol i'r hosbis dynnu sylw ein cefnogwyr a chodi arian. Eleni roeddem yn falch iawn o gyflwyno Grŵp Cymorth Codi Arian newydd yn Rhuthun, yn union fel y grwpiau eraill, mae'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr a'i nod yw codi ymwybyddiaeth o wasanaethau'r hosbis a'r angen am gyllid.

Estynnwn ein diolch o galon i'r gymuned am ddod ynghyd i gynnal gofal hosbis lleol.


# Adroddiad manwerthu

Parhaodd refeniw manwerthu i dyfu, gyda chefnogaeth perfformiad rhagorol ein Pre Loved Warehouse sy'n cynnig ystod enfawr o ddodrefn ac ategolion cartref am brisiau na ellir eu curo. Mae gwasanaethau ychwanegol yn cynnwys gwacáu tŷ am ddim sydd ar gael ar gais, wedi'i hwyluso'n lleol gan ein tîm cyfeillgar o yrwyr.

Mae ein portffolio yn cynnwys wyth siop a'r 'Warws Pre Loved', tîm manwerthu gwerthfawr sy'n ymdrechu i ddarparu gwasanaeth rhagorol, gan gynnig croeso cynnes i bob cwsmer sy'n ymweld â'n sawl lleoliad.

Mae Abergele wedi denu sylw'r wasg gyda'r amrywiaeth wych o wisgoedd priodasol ac achlysurol. Wedi'i leoli ar y llawr cyntaf, rydym yn cynnig ffitiadau trwy apwyntiad, mae hwn yn hoff gyrchfan i siopwyr priodas a phrom!

Ar gyfer cwsmeriaid sy'n dymuno siopa ar-lein, rydym bellach yn gwerthu ystod eang o gynhyrchion cynllunydd a restrir ar E-Bay a Vinted am bris cystadleuol, mae gennym gannoedd o bethau ar gael ar werth i'w dosbarthu ar unwaith.







# Loteri

Yn ystod y flwyddyn gwelsom gynydd yn yr incwm o arian loteri wythnosol ac rydym yn ddiolchgar i bawb sy'n cymryd rhan. Mae Lindsey Thomas, sydd wedi cydlynu loteri Hosbis Sant Cyndeyrn am y pum mlynedd diwethaf bellach wedi cyflwyno ein loteri ar-lein sy'n golygu y gall unrhyw un, unrhyw le, dalu i chwarae a chefnogi'r hosbis!

Rhoddwyd dros £167,000 i'r Hosbis sy'n cynrychioli 59c o bob £1 a dderbyniwyd ar ôl talu gwobrau o £91,000 a'r holl gostau rhedeg cysylltiedig.

Gydag un enillydd o £1,000 bob wythnos a gwobr dreigl o hyd at £6,000 mae ein Loteri San Kentigern yn ffordd hawdd ac effeithiol o ddangos eich cefnogaeth.

Mae'r loteri wedi'i thrwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae ac rydym yn aelodau gweithgar o Gymdeithas Loteriau'r Hosbis.



# Gwirfoddoli

Rydym yn falch o gyhoeddi bod gennym bellach dros 260 o wirfoddolwyr sy'n darparu cymorth hanfodol i gadw ein gwasanaethau i redeg. Mae ein portffolio ffyniannus o rolau gwirfoddol – yn cynnwys Cynorthwyr Manwerthu, Profwyr PAT, Casglwyr Bwced, Derbynyddion, Gwirfoddolwyr Caffi, Garddwyr, Gweinyddwyr Codi Arian, Gyrwyr Cleifion, Ffotograffwyr a Fideograffwyr – sy'n golygu bod cyfle bob amser i unigolion gyfrannu eu sgiliau a gwneud gwahaniaeth i'r gymuned.

Mae'r hosbis hefyd yn ennill cydnabyddiaeth fel sefydliad credadwy ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc i gwblhau eu Bagloriaeth Cymru neu Wobr Dug Caeredin. Rydym yn annog pobl ifanc i wirfoddoli. Y pwrpas yw datblygu eu sgiliau cyflogadwyedd, archwilio opsiynau gyrfya posibl a meddu dealltwriaeth ynghylch y diwydiant a'r gweithle.

Rydym yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth ddiwyro y mae ein gwirfoddolwyr yn ei darparu. Gall roi ychydig o oriau'n rheolaidd helpu i wneud gwahaniaeth enfawr. Yn syml, ni allem gynnig ein gofal heb gymorth ein gwirfoddolwyr anhygoel ac rydym yn ddiolchgar i bob un ohonynt.

## Mae Caffi Cariad yn edrych yn wahanol iawn...

Mae'r tîm arlwyo'n darparu bwyd maethlon i'n cleifion a'u teuluoedd, rydym yn cynnig ystod eang o gynnyrch lleol wedi'u coginio'n ffres. Bydd ein cogyddion medrus profiadol yn gwneud eu gorau glas i sicrhau bod ein cleifion yn hapus.




Mae Caffi Cariad ar agor saith niwrnod yr wythnos i'r cyhoedd, gan ddarparu ein rhaglenni tymhorol arbennig a'n prif ffefrynnau sy'n anodd eu gwrthod yn ôl nifer o bobl. Rydym wedi cyflwyno amrywiaeth eang o gacennau ffres blasus sydd hefyd ar gael fel tecawê er hwylustod.

Mae ein bwyty sy'n eistedd 50 o bobl hefyd yn cynnig lle i fwyta tu allan yn ein iard hardd. Mae digwyddiadau a gynhelir yn ein Caffi yn hynod boblogaidd o fwydlenni arbennig San Ffolant i'n te prynhawn mawreddog i'n nosweithiau Stecen premiwm, gallwch sicrhau gwerth gwych am arian ynghyd â gwasanaeth twymgalon cyfeillgar. Gellir archebu lle ymlaen llaw ar gyfer grwpiau mawr, rydym yn cynnig ystod lawn o brydau poeth a phwdinau fel tecawê, ac rydym yn croesawu anifeiliaid anwes ac yn cynnig amrywiaeth o ddanteithion blasus.

Mae ein tudalen gwefan ar gyfer Caffi Cariad yn cael ei diweddarau gyda'r bwydlenni tymhorol diweddaraf a rhestr lawn o ddiwyddiadau, gallwch hefyd ein dilyn ar Facebook ac Instagram.



# Ystadegau Allweddol 2023-2024



## Ymddiriedolwyr

### Llywydd

Susan Lady Langford

### Cadeirydd

Mr Steve Thomas

Mr Jonathan Osborne

Mrs Judith Owen

Mr Gren Kershaw

Mr John Griffith Thomas

Dr Uday Bisarya

Mr Randal Owen

Mr Adrian Thomas

Mrs Rhian Williams

Mrs Rhian Clarke

Mr Glyn Jones OBE

Mrs Angela Hind

## Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

	<b>2024</b>	<b>2023</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>
<b>ADNODDAU A DDERBYNNIR</b>		
Rhoddion a chymynroddion	827,448	1,042,451
Gweithgareddau elusennol	1,264,036	1,092,941
Gweithgareddau masnachu eraill	1,272,623	1,045,337
Incwm o fuddsoddiadau	7,573	759
Incwm arall	7,416	(4,781)
	<b>3,379,096</b>	<b>3,176,707</b>
<b>Adnoddau a wariwyd</b>		
Gwariant ar godi arian	931,255	803,190
Gwariant ar weithgareddau elusennol	2,531,684	2,161,560
<b>CYFANSWM ADNODDAU A WARIWYD</b>	<b>3,462,903</b>	<b>2,964,750</b>
<b>Adnoddau net a dderbynnir</b>	<b>(83,807)</b>	<b>211,957</b>
Enillion/(colledion) ar ailbriso asedau sefydlog	157,506	(66,613)
	73,699	145,344
Cysoni symudiad arian	5,966,070	5,820,726
Cyfanswm yr arian a ddygwyd ymlaen	6,039,769	5,966,070
<b>Cyfanswm yr arian a gariwyd ymlaen</b>		

## Mantolen ar 31 Mawrth 2024

	<b>2024</b>	<b>2023</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>
<b>Asedau Sefydlog</b>		
Asedau diriaethol	3,401,687	3,540,794
Buddsoddiadau	2,071,386	1,413,880
	<b>5,473,073</b>	<b>4,954,674</b>
<b>Asedau Cyfredol</b>		
Dyledwyr	370,642	231,577
Arian parod yn y banc	396,422	956,584
	<b>767,064</b>	<b>1,188,161</b>
<b>Rhwymedigaethau</b>		
Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	200,368	176,765
<b>Asedau Cyfredol Net</b>	<b>566,696</b>	<b>1,011,396</b>
<b>ASEDAU NET</b>	<b>6,039,769</b>	<b>5,966,070</b>
<b>Cronfeydd yr elusen</b>		
Cronfeydd Cyfyngedig	395,853	395,853
Cronfeydd Anghyfyngedig	5,643,916	5,570,217
<b>CYFANSWM CRONFEYDD ELUSENNOL</b>	<b>6,039,769</b>	<b>5,966,070</b>